



Briff Ymchwil
**Deddf Casglu a Rheoli Trethi
(Cymru) 2016**

Awdur: **Christian Tipples**
Dyddiad: **Gorffennaf 2016**



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Christian Tipples**

Dyddiad: **Gorffennaf 2016**

Rhif Papur: **16-047**

Clawr blaen: **Llun Pexels. Trwydded Creative Commons**

Cysylltwch â ni

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

 : 0300 200 7393

 : Christian.Tipples@Cynulliad.Cymru

 : Cynulliad.Cymru/Pigion

 : [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

 : Cynulliad.Cymru/Ymchwil

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

Mae Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (y Ddeddf) yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru yn y dyfodol, ac mae'n sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC), sef y corff sy'n gyfrifol am gasglu a rheoli trethi datganoledig.



Cynnwys

01. Cyflwyniad	1
02. Cefndir y Ddeddf	2
Datganoli Trethi	2
Beth mae'r Ddeddf yn ei wneud?.....	2
03. Amcangyfrif costau gweithredu'r Ddeddf	4
Opsiwn 1 - Gwneud dim	4
Opsiwn 2 - Sefydlu cyfundrefn rheoli a chasglu trethi	4
04. Casglu a Rheoli Trethi	6
05. Barn y rhanddeiliaid	7
Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru	7
Ymchwiliadau'r Pwyllgor Cyllid.....	8
06. Taith drwy'r Cynulliad	11
Cyflwyniad y Bil	11
Cyfnod 1	11
Cyfnod 2.....	11
Cyfnod 3.....	11
Cyfnod 4.....	11
Cydsyniad Brenhinol.....	11
07. Effeithiau'r Ddeddfwriaeth	12
08. Trefniadau yn y Dyfodol	13
09. Adolygiad gweithredu	14

01. Cyflwyniad

Mae **Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016** (y Ddeddf) yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru yn y dyfodol, ac mae'n sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC), sef y corff sy'n gyfrifol am gasglu a rheoli trethi datganoledig.

Yn ogystal â sefydlu ACC, mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar:

- Roi pwerau a dyletswyddau priodol i ACC (a dyletswyddau a hawliau ar drethdalwyr ac eraill) mewn perthynas â dychwelyd ffurflenni treth a chynnal ymchwiliadau ac asesiadau.
- Pwerau ymchwilio a gorfodi ACC.
- Dyletswyddau ar drethdalwyr i dalu cosbau.
- Dyletswyddau ar ACC a threthdalwyr i dalu llog o dan rai amgylchiadau.
- Hawliau i drethdalwyr ofyn am adolygiadau o benderfyniadau penodol gan ACC.
- Cyflwyno pwerau gorfodi troseddol ar ACC.

02.Cefndir y Ddeddf

Datganoli Trethi

Fe wnaeth **Deddf Cymru 2014** ddatganoli pwerau trethi newydd i Gymru. Roedd yn darparu strwythur i Lywodraeth Cymru allu deddfu mewn perthynas â meysydd y mae Treth Dir y Dreth Stamp (SDLT) a'r Dreth Dirlenwi (LT) yn berthnasol iddynt ar hyn o bryd, y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu datganoli i Gymru ar 1 Ebrill 2018.

Dadleuodd Llywodraeth Cymru y byddai peidio â datblygu trethi amgen yn golygu gostyngiad sylweddol yn y grant bloc sydd ar gael, a heb ddeddfwriaeth i godi trethi, ni fyddai gallu i fenthycu (fel y darperir ar ei gyfer yn Neddf Cymru 2014).

Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bwriad i gyfnewid treth stamp a threth dirlenwi y DU drwy gyflwyno dau Fil i sefydlu trethi newydd yng Nghymru - y dreth trafodiadau tir (LTT) a'r dreth gwarediadau tirlenwi (LDT).

Mae'r **Papur Gorchymyn (pdf 322KB)**, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, sy'n nodi manylion ar roi ar waith a gweithredu pwerau trethi a benthycu newydd y Cynulliad, yn sôn ymhellach am ddatganoli'r ardoll agregau i Gymru, sydd ar hyn o bryd yn amodol ar ddatrys heriau cyfreithiol yn Llys Ewrop.

Yn **Natganiad yr hydref a'r Adolygiad o Wariant yn 2015**, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai hefyd yn diddymu'r angen am refferendwm i ddatganoli treth incwm yn rhannol i Gymru. Dyma fydd y ffynhonnell fwyaf o refeniw treth i gael ei rheoli gan Lywodraeth Cymru.

Beth mae'r Ddeddf yn ei wneud?

Mae gan y Ddeddf 10 Rhan sy'n cynnwys 195 Adran.

Mae Rhan 1 (Adran 1) yn darparu trosolwg o brif ddarpariaethau'r Ddeddf.

Mae Rhan 2 (Adrannau 2-36) yn sefydlu ACC, gan gynnwys ei swyddogaethau, ei aelodau a'r Siarter trethdalwyr. Mae'r Ddeddf yn sefydlu ACC fel endid corfforaethol ar wahân sy'n gweithredu yn annibynnol oddi ar Weinidogion Cymru, gyda pholisi a phenderfyniadau strategol ynghylch trethi yn cael eu cadw gan Lywodraeth Cymru.

Mae Rhan 3 (Adrannau 37-81) yn nodi nifer o ddyletswyddau ar drethdalwyr drwy wneud darpariaethau ar gyfer cadw cofnodion a ffeilio ffurflenni treth a gwneud ceisiadau. Mae hefyd yn nodi trefniadau ACC ar gyfer pennu atebolrwydd trethdalwr i dreth datganoledig ac yn darparu ar gyfer ymchwiliad, penderfyniad neu asesiad gan ACC.

Mae Rhan 4 (Adrannau 82-116) yn sefydlu pwerau ymchwilio ACC. Mae'n rhoi pwerau i ACC gael gafael ar wybodaeth a dogfennau ac archwilio safleoedd pan nad yw trefniadau anffurfiol wedi arwain at ddarparu gwybodaeth angenrheidiol.

Mae Rhan 5 (Adrannau 117-156) yn darparu ar gyfer cosbau mewn perthynas â threthi datganoledig. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i ACC fod yn gyfrifol am benderfynu a gweithredu trefn orfodi ddigon cadarn o ran casglu a rheoli trethi datganoledig, drwy arfer pwerau ymchwilio a defnyddio sancsiynau troseddol priodol lle bo angen.

Mae Rhan 6 (Adrannau 157-163) yn darparu ar gyfer talu llog ac i Weinidogion Cymru bennu cyfradd y llog i'w dalu. Caiff llog ei godi i ddigolledu ACC neu'r trethdalwr am golli'r defnydd o'r arian. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer talu llog ar symiau sy'n daladwy i ACC a symiau sy'n daladwy gan ACC.

Mae Rhan 7 (Adrannau 164-170) yn sefydlu trefniadau i gefnogi cydymffurfiaeth er mwyn gweithredu fel rhwystr i osgoi talu treth.

Mae Rhan 8 (Adrannau 171-184) yn darparu ar gyfer proses setliadau a allai ddigwydd yn lle adolygiad mewnol. Yn ei hanfod, gall ACC a threthdalwr ddod i gytundeb ar y cyd. Mewn achosion lle bydd anghydfod yn codi, y nod fydd datrys y mater mor anffurfiol a chost effeithiol â phosibl, wrth gydnabod y gallai fod angen penderfyniad mwy ffurfiol i ddatrys y mater.

Mae Rhan 9 (Adrannau 185-187) yn rhoi pwerau i ACC ymchwilio i droseddau. Bydd y Ddeddf yn caniatáu i ACC ddefnyddio pwerau eang i ymchwilio i droseddau, fel rhoi gorchmynion sy'n gofyn am gynhyrchu gwybodaeth benodol a gwylidwriaeth. Bydd ganddi hefyd y gallu i adennill asedau a gaffaelwyd drwy ymddygiad troseddol mewn rhai amgylchiadau.

Mae Rhan 10 (Adrannau 188-195) yn gwneud darpariaethau terfynol yn manylu ar sut y gall ACC gyhoeddi hysbysiadau; y gofynion ar gyfer rhoi hysbysiadau a dogfennau i ACC; dehongli; a rhestr o ymadroddion a ddiffinnir neu sy'n cael eu hegluro fel arall yn y Bil.

03.Amcangyfrif costau gweithredu'r Ddeddf

Mae'r **Memorandwm Esboniadol diwygiedig (pdf 1.17MB)** (fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 2) yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) yn amlinellu costau a buddion sefydlu ACC. Darparwyd dau opsiwn:

Opsiwn 1 - Gwneud dim

Ni fyddai unrhyw gost ychwanegol uniongyrchol am na fyddai'r drefn casglu a rheoli trethi yn cael ei sefydlu. Fodd bynnag, os na fyddai Llywodraeth Cymru yn creu trethi amgen neu'n peidio â threfnu i'w casglu a'u rheoli, yna byddai Cymru yn colli allan ar referniw SDLT o ystyried y gostyngiad yn y grant bloc i Gymru i wneud yn iawn am ddatganoli'r dreth hon.

Opsiwn 2 - Sefydlu cyfundrefn rheoli a chasglu trethi

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru fydd yr holl gostau ar gyfer yr opsiwn hwn ond mae'n cydnabod bod angen gwaith pellach i asesu a mesur y costau'n fanwl.

Nododd mai bwriad ACC oedd penodi Cyfarwyddwr Gweithredu yn haf 2016 i fod yn gyfrifol am sefydlu gweithrediadau ACC. Disgwylir i'r cyflog a'r costau cysylltiedig â'r penodiad hwn fod yn £90,500 ar gyfer 2016-17 (yn seiliedig ar ddyddiad dechrau ym mis Awst) a £136,000 ar gyfer 2017-18 ymlaen.

Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn amlinellu'r amcangyfrifon cychwynnol gorau ar gyfer costau sefydlu a gweithredu blynyddol ACC.

Tabl 1: Amcangyfrif costau sefydlu ar gyfer y cyfnod 2016/17 i 2018/19

Amcangyfrif costau sefydlu ar gyfer y cyfnod 2016/17 - 2018/19	£000	
	Isel	Uchel
Llywodraeth Cymru - Costau staff (Costau staff gros, gan gynnwys cyflogau a gorbenion)	1,700	2,000
Llywodraeth Cymru - Costau eraill (Bwrdd, Archwilio, TGCh, llety, ac ati)	550	1,200
Cyllid a Thollau EM - Staff a chostau eraill (gan gynnwys, datblygu TGCh a gweithredu'r prosiect)	2,500	2,970
Cyfoeth Naturiol Cymru - Staff a chostau eraill (gan gynnwys, datblygu TGCh a gweithredu'r prosiect)	100	180
Cyfanswm	4,850	6,350

Tabl 2: Amcangyfrif costau gweithredu blynyddol ACC o 2018/19 ymlaen

Amcangyfrif Costau Rhedeg Blynyddol o 2018/19	£000	
	Isel	Uchel
Awdurdod Cyllid Cymru - Costau staff (Costau staff gros, gan gynnwys cyflogau a gorbenion)	1,400	1,800
Llywodraeth Cymru - Costau eraill (Bwrdd, Archwilio, TGCh, llety, ac ati)	400	840
Cyllid a Thollau EM - Staff a chostau eraill (Prosesu'r LTT, darpariaeth TGCh a Thîm Trethi Cymru)	840	1,000
Cyfoeth Naturiol Cymru - Staff a chostau eraill (Tîm Gorfodi a Chydymffurfio LDT)	200	315
Cyfanswm	2,840	3,955

Fe **gadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol** y byddai'r costau sefydlu a gweithredu disgwylidig o fewn yr ystod a gyhoeddwyd eisoes gan y Gweinidog Cyllid blaenorol.

04. Casglu a Rheoli Trethi

Ar 30 Mehefin 2015, cyhoeddodd y Gweinidog blaenorol **ddatganiad ysgrifenedig** yn nodi'r darparwyr a ffefrir gan Lywodraeth Cymru i gasglu a rheoli trethi datganoledig. Cadarnhawyd mai'r dull a ffefrir oedd i ACC weithio gyda Chyllid a Thollau EM (HMRC) i gasglu a rheoli'r Dreth Trafodiadau Tir (LTT).

Ers hynny, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi **cyflwyno datganiad** yn cadarnhau mai ACC fydd yn llwyr gyfrifol am gasglu a rheoli'r LTT, gyda HMRC yn gweithredu mewn rôl ymgynghorol yn unig.

O ran y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT), nododd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'n bwrw ymlaen ag argymhelliad y Gweinidog blaenorol i ACC ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau casglu a rheoli, gan ddirprwyo cydymffurfiaeth a gorfodaeth i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

05. Barn y rhanddeiliaid

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

Trefnodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad '**Casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru**' rhwng 23 Medi a 15 Rhagfyr 2014, gan geisio barn ar sut y gallai Llywodraeth Cymru gasglu a rheoli trethi datganoledig.

Cafodd yr ymgynghoriad **40 o ymatebion** gan ymatebwyr yng Nghymru, gan gynnwys canghennau Cymru o sefydliadau'r DU neu sefydliadau'r DU sydd â phrofiad o drefniadau treth yng Nghymru.

Y prif feysydd a drafodwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn oedd:

- sefydlu ACC ynghyd â llywodraethu ac adrodd
- pa gyrff a ddylai gasglu a rheoli trethi datganoledig
- rhwymedigaethau ar drethdalwyr
- annog cydymffurfiad â threthi
- mynd i'r afael ag osgoi trethi
- datrys anghydfodau treth.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i sefydlu ACC ac yn nodi'r pwysigrwydd ei fod yn adran anweinidogol. Roeddent hefyd yn cefnogi'r set arfaethedig o ddyletswyddau craidd, a'r trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu ar gyfer sefydlu ACC. Roedd y mwyafrif hefyd yn cytuno â sefydlu Siarter Trethdalwyr ond roedd ansicrwydd ynghylch pa mor effeithiol y byddai'r Siarter.

Yn ôl yr ymatebwyr, yr ystyriaeth bwysicaf i ACC yw'r heriau o ran lleihau costau yn ogystal â darparu lefel uchel o wasanaeth cydlynol i drethdalwr. Barnwyd mai'r ffordd orau i sicrhau effeithlonrwydd a symlrwydd fyddai drwy sefydlu un corff cenedlaethol, fel ACC.

Rhodddwyd cefnogaeth gyffredinol i roi rôl barhaus i Gyllid a Thollau EM oherwydd ei arbenigedd a'r arbedion maint. Awgrymwyd hefyd y dylai CNC ymgymryd â rôl o fewn y sefydliad, gan nodi yn flaenorol y byddai'n dymuno edrych ar opsiynau sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth a gorfodaeth LDT.

Roedd cytundeb bod y rhwymedigaethau arfaethedig ar drethdalwyr yn briodol er bod angen mwy o fanylion er mwyn sicrhau bod trethdalwyr yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Cafodd y bwriad i ddarparu ACC gyda phwerau i gynnal ymchwiliadau hefyd gefnogaeth, ond prif ffocws ACC ddylai fod helpu trethdalwyr i dalu'r swm cywir o dreth ar amser.

Roedd y mwyafrif o'r farn y dylai ACC allu dirprwyo ei swyddogaethau, er bod pryder ynghylch cyfrinachedd trethdalwyr a sut i sicrhau hynny wrth ddirprwyo i gyrff eraill.

O ran cydymffurfiad â threthi, hoffai'r ymatebwyr weld cymhellion ariannol ar gyfer cydymffurfiad, arweiniad clir a hygyrch a mecanweithiau cefnogaeth fel llinellau cymorth dros y ffôn a phorth ar-lein.

Cytunwyd y dylai ACC gael pwerau i bennu cosbau. Fodd bynnag, rhaid i gosbau fod yn gyfrannol a hyblyg a dylent adlewyrchu'r bwriad y tu ôl i'r weithred. Roedd barn fod y system dreth gyfredol yn gymhleth ac y dylai'r ACC symleiddio'r system fel bod trethdalwyr yn gallu cydymffurfio'n well.

Roedd ymateb cymysg i sefydlu cyfundrefn datgelu treth ac fe roddwyd amrywiaeth o resymau pam na ddylid sefydlu'r gyfundrefn, gan gynnwys a oedd ei angen a'r cyfiawnhad ar gyfer costau ychwanegol pan fo rheoliadau eraill eisoes yn bodoli, megis y cynlluniau datgelu osgoi treth (DOTAS).

Roedd y mwyafrif o'r farn bod angen Rheol Gyffredinol ar Atal Camddefnydd (GAAR) a ddylai ddilyn **GAAR y DU**. Mae'r rheol hon yn diffinio'r trefniadau treth sy'n gamddefnydd o dan gyfraith y DU. Mae'r Alban wedi datblygu ei **Reol Gyffredinol ar Atal Osgoi** ehangach ei hun ar gyfer trethi sydd wedi'u datganoli i'r Alban. Awgrymodd y rhan fwyaf o ymatebwyr hefyd y dylid sefydlu panel annibynnol i roi mwy o sicrwydd i fusnesau wrth weithredu GAAR.

Cafodd y mecanwaith Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod er mwyn helpu i geisio datrys anghydfodau'n gynt ei groesawu. Y mecanwaith mwyaf poblogaidd oedd cyfryngu, am ei fod yn isel o ran cost ac yr opsiwn mwyaf teg. Roedd cadw'r hawl i apelio i'r tribiwnlys wedi'i nodi fel elfen bwysig o ran sicrhau hyder yn y system dreth.

Rhodddwyd cefnogaeth i'r bwriad fod ACC yn defnyddio'r system tribiwnlysoedd dwy haen a weinyddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar hyn o bryd. Dadleuwyd y byddai sefydlu system cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru yn gostus a diangen am fod yr arbenigedd eisoes yn ei le yn system y DU.

Ymchwiliadau'r Pwyllgor Cyllid

Casglu a Rheoli Trethi Datganoledig yng Nghymru

Wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r Bil, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i gasglu trethi datganoledig gyda'r nod o ystyried pa sefydliadau oedd y sefydliadau mwyaf priodol i gasglu trethi datganoledig yn y tymor byr a'r tymor hwy.

Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 23 Mawrth a 24 Ebrill 2015, fe gafodd **7 ymateb** ac fe gymerodd dystiolaeth lafar gan 11 o dystion, i lywio ei waith.

Cyhoeddwyd yr adroddiad (pdf 351KB) ar 27 Mai 2015 ac fe gyhoeddodd y Gweinidog **ymateb ysgrifenedig (pdf 244KB)** ar 1 Gorffennaf 2015. Yn yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion, gan gynnwys:

- cyhoeddi costau gweinyddol casglu trethi er mwyn dod i benderfyniad ynghylch pa sefydliad ddylai casglu trethi datganoledig
- rheoli'r system dreth mewn ffordd integredig, gyda'r Gweinidog Cyllid yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am holl drethi Cymru
- ni ddylai'r dull o gasglu trethi yng Nghymru fod yn wahanol i ddull y DU oni bai fod rhesymau clir dros wneud hynny
- angen penderfynu a ddylid creu Comisiwn Cyllidol Cymru i gynorthwyo gyda rhagweld derbyniadau treth.

Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) - Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1

Rhwng 15 Gorffennaf ac 8 Medi 2015, cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad ar Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru). Daeth 16 ymateb i law ac fe'u cyhoeddwyd ar **wefan y Cynulliad**.

Cyhoeddwyd yr adroddiad (pdf 1.05MB) ym mis Tachwedd 2015, gan roi manylion am ganfyddiadau'r Pwyllgor i'r ymchwiliad a gwneud 29 o argymhellion.

Dangosodd y dystiolaeth o'r ymgynghoriad mai'r prif ystyriaethau i randdeiliaid o ran datblygu'r system casglu a rheoli trethi datganoledig oedd cysondeb, sefydlogrwydd a hyblygrwydd.

Cafodd y Pwyllgor adborth cadarnhaol gan randdeiliaid ynghylch ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, gan nodi bod eu sylwadau wedi cael eu cynnwys yn y Bil. Croesawodd y Pwyllgor dull ymgysylltu'r Gweinidog, ac roedd o'r farn y dylid defnyddio'r dull cynhwysol hwn fel arfer gorau ar gyfer Biliau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Roedd cefnogaeth eang i egwyddorion cyffredinol y Bil gyda'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno y byddai dull cyson yn system dreth y DU o fudd i drethdalwyr.

Awgrymwyd y dylai ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus dargedu busnesau a gweithwyr proffesiynol yn y lle cyntaf, am y bydd rhoi'r LTT a'r LDT ar waith yn effeithio'n bennaf ar y grwpiau hyn. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor Cyllid o'r farn ei bod yn hanfodol bod trethdalwyr Cymru yn deall mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y trethi hyn.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cefnogi sefydlu ACC fel adran anweinidogol ar wahân i Lywodraeth Cymru ac yn fodlon bod aelodaeth ACC yn cynnwys aelodau gweithredol ac anweithredol. Er hynny, roedd pryderon ynghylch y broses a ddefnyddir ar gyfer enwebu aelodau o staff i fwrdd ACC.

Yn ei adroddiad, argymhellodd y Pwyllgor newidiadau i'r broses enwebu ac roedd o'r farn y dylid cryfhau'r Bil i atgyfnerthu annibyniaeth ACC.

Cafodd gallu'r ACC i sefydlu pwyllgorau hefyd ei groesawu gan lawer am fod hynny'n caniatáu iddi ychwanegu at sgiliau a gwybodaeth y Bwrdd. Fodd bynnag, roedd pryder fod y Bil yn caniatáu i ACC reoleiddio ei gweithdrefnau ei hun, heb fewnbwn gan aelodau anweithredol.

Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylai cworwm y Bwrdd gynnwys mwyafrif o aelodau anweithredol ac y dylai penderfyniadau'r pwyllgorau fod ar gael i'r cyhoedd lle bo hynny'n briodol.

Roedd y mwyafrif yn fodlon na fyddai'r Bil yn arwain at feichiau cydymffurfio ychwanegol. Nodwyd na fyddai'r Rheol Gyffredinol ar Atal Camddefnydd (GAAR) - dull gweithredu Llywodraeth y DU i reoli'r risg osgoi treth - yn briodol ar gyfer y Bil ac y byddai'n well ei gynnwys mewn deddfwriaeth penodol ar drethi. Cytunodd y Pwyllgor Cyllid â'r farn hon.

Roedd ymatebwyr o'r farn y byddai o fudd i'r ACC ddefnyddio model 'digidol yn ddiodyn', ond dadleuwyd na ddylid defnyddio dull 'un maint i bawb' gan fod allgau digidol mewn rhannau o Gymru.

Mynegwyd pryder hefyd ynghylch gallu ACC i awdurdodi cyflogai i gyflawni ei swyddogaethau. Gallai hyn, o bosibl, ganiatáu i ACC fabwysiadu dull 'hyd braich' o ran ei swyddogaethau ac ni fyddai hynny'n cyd-fynd â llywodraethu da.

Argymhellwyd y dylai'r ACC gadw rhai swyddogaethau, fel cymeradwyo Cynlluniau Corfforaethol, Cyfrifon a Datganiadau Treth, ac roedd y Pwyllgor yn cytuno.

Roedd y rhan fwyaf yn fodlon â'r trefniadau dirprwyo swyddogaethau yn y Bil. Roedd y Pwyllgor Cyllid o'r farn y dylid dirprwyo swyddogaethau i gyrff eraill ar sail cytundebau lefel gwasanaeth ffurfiol, gan gynnwys darpariaethau iaith Gymraeg.

Roedd y Pwyllgor yn rhybuddio yn erbyn y gallu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i ACC. Roedd o'r farn y gallai'r ddarpariaeth hon gael ei defnyddio gan Lywodraeth Cymru i atal swyddogaethau ACC. Roedd yn argymhell y dylid diwygio'r Bil i atal hynny.

Cafodd cynnwys Siarter statudol dderbyniad da gan ymatebwyr, gyda'r Pwyllgor yn gofyn am gyhoeddi'r Siarter cyntaf cyn datganoli trethi ym mis Ebrill 2018.

Nododd ymatebwyr bod angen i'r Bil ystyried rôl y Cynulliad Cenedlaethol o ran craffu ar ACC. Ymatebodd y Pwyllgor drwy argymhell y dylai'r Bil alluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i awdurdodi pwyllgor i graffu ar ACC.

Mater a gododd yn ystod yr ymgynghoriad oedd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn codi tâl am archwiliadau. Yn benodol, roedd angen i SAC ac nid ACC dalu am archwiliadau Datganiad Treth. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai hynny'n cael ei ddiwygio (ac fe gafodd hynny ei wneud) yng Nghyfnod 2 y broses gan roi i SAC y pŵer i godi tâl am archwiliadau Datganiad Treth.

Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau ar gyfer y pwerau y bydd gan ACC ar gyfer casglu trethi a'r amrywiol rwymedigaethau ar drethdalwyr. Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan bod y darpariaethau hyn yn gyson â deddfwriaeth y DU. Fodd bynnag, roedd o'r farn y dylai'r Gweinidog ystyried adolygu'r pwerau hyn ar ôl i'r trethi gael eu sefydlu a'u gweithredu am sawl blwyddyn.

Roedd y Pwyllgor Cyllid yn siomedig ynghylch y diffyg gwybodaeth ariannol a oedd ar gael pan gafodd y Bil ei gyflwyno, a oedd yn golygu na allai gymryd tystiolaeth ar sail gwybodaeth gan ymatebwyr ar y goblygiadau ariannol. Ers hynny, mae'r Gweinidog wedi darparu costau sefydlu a gweithredu ar gyfer ACC (ond nid oedd costau ar gyfer cyrff sy'n cael eu dirprwyo i ymgymryd â gwaith ar ran ACC), ond ni ddarparwyd unrhyw sail resymegol na chyfiawnhad ar gyfer sut y cafodd y costau eu cyfrifo.

06. Taith drwy'r Cynulliad

Mae **tudalen Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016** ar wefan y Cynulliad yn amlinellu hynt y Ddeddf drwy'r broses ddeddfwriaethol. Mae crynodeb isod.

Cyflwyniad y Bil

Cafodd y Bil ei **gyflwyno ar 13 Gorffennaf 2015 (pdf 383KB)** gan Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth.

Cyfnod 1

Bu'r Pwyllgor Cyllid yn craffu ar y Bil, gan ystyried yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth. Lansiodd y Pwyllgor Cyllid **ei ymgynghoriad cyhoeddus ei hun** rhwng 15 Gorffennaf 2015 ac 8 Medi 2015 i lywio ei waith.

Cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid ddigwyddiad i randdeiliad ar 23 Medi 2015 gan gynnal 10 sesiwn tystiolaeth, a oedd yn cynnwys 10 o sefydliadau a dwy sesiwn gyda'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth. **Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad (pdf 1.05MB)** ym mis Tachwedd 2015, gan wneud 29 o argymhellion.

Cynhyrnodd y Gwasanaeth Ymchwil **Grynodeb o'r Bil (pdf 480KB)** ym mis Medi 2015 yn amlinellu cefndir y Bil; ei amcanion polisi; crynodeb o'r ddeddfwriaeth; costau ac effeithiau'r Bil; ac ymatebion i'r Bil.

Cyfnod 2

Dechreuodd Cyfnod 2 ar 9 Rhagfyr 2015, a chyfarfu'r Pwyllgor i **ystyried a gwaredu gwelliannau** ar 28 Ionawr 2016. Cyhoeddodd y Gwasanaeth Ymchwil **Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru): Crynodeb o'r newidiadau yng Nghyfnod 2 (pdf 169KB)** yn rhoi manylion y newidiadau arfaethedig i'r Bil.

Cafodd 96 o welliannau eu cyflwyno, ac fe gafodd dau eu tynnu'n ôl. **Cafodd y 36 o welliannau** a gyflwynwyd gan y Gweinidog Cyllid eu cytuno gan y Pwyllgor. Dim ond un o'r gwelliannau nad oedd yn welliant gan y Llywodraeth a basiwyd. **Mae gwelliant 61A** yn ei gwneud yn ofynnol i ACC gyhoeddi ei Siarter o fewn 3 mis i'w baratoi.

Cyfnod 3

Cafodd 561 o welliannau eu hystyried yn **y Cyfarfod Llawn ar 1 Mawrth 2016**. **Cafodd 3 gwelliant** a gyflwynwyd gan y Gweinidog, yn gwneud mân newidiadau i'r Bil, eu cytuno. Ni lwyddodd y **558 o welliannau** a oedd yn weddill, a gynigiwyd gan y gwrthbleidiau. Roedd y rhan fwyaf o'r gwelliannau hynny'n ymwneud â newid yr enw o Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) i Cyllid Cymru (CC).

Cyfnod 4

Cafodd y Bil terfynol ei gymeradwyo gan y Cynulliad yn dilyn dadl yn **y Cyfarfod Llawn ar 8 Mawrth 2016**.

Cydsyniad Brenhinol

Ar ôl i'r Bil basio Cyfnod 4, mae **'cyfnod hysbysiad' (pdf 499KB)** pedair wythnos yn cychwyn, pryd gall y Twrnaï Cyffredinol, y Cwnsler Cyffredinol neu Ysgrifennydd Gwladol Cymru herio'r Bil.

Ni chafodd y Bil ei herio ac, wedi hynny, fe gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 25 Ebrill 2016. Daeth yn ddeddfwriaeth fel Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

07.Effeithiau'r Ddeddfwriaeth

O gofio bod y ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer sefydlu corff corfforaethol, rhagwelir na fydd effaith fawr ar y rhan fwyaf o fusnesau neu unigolion. Efallai y bydd mân effeithiau sy'n ymwneud â gweithgareddau gweithredol ACC ar gyfer unigolion sydd â:

- nam ar eu golwg
- nam ar eu clyw
- anabledd corfforol

Nododd Llywodraeth Cymru yn y Memorandwm Esboniadol y byddai gweithgareddau ACC yn cael eu hystyried i liniaru'r problemau posibl a allai'r unigolion hynny eu hwynebu.

Bydd ACC yn ddarostyngedig i'r safonau Cymraeg sy'n ofynnol yn ôl Mesur y Gymraeg 2011.

08.Trefniadau yn y Dyfodol

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer sefydlu ACC cyn bod y gyfran gyntaf o drethi sy'n cael eu datganoli i Gymru yn cael eu rhoi ar waith ym mis Ebrill 2018. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi amlinellu'r amserlenni ar gyfer sefydlu ACC:

- Penodi Cyfarwyddwr Gweithredu ACC ym mis Ionawr 2016
- Cychwyn ar y broses i benodi cadeirydd ACC ddechrau hydref 2016
- Bwrdd llawn ACC yn ei le chwe mis cyn i'r awdurdod ddechrau casglu a rheoli trethi datganoledig ym mis Ebrill 2018.

09. Adolygiad gweithredu

Rhagwelir y bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei hadolygu ar ôl 3-5 mlynedd, gan roi adolygiad o'r strwythur casglu a rheoli trethi ar waith pan fydd y gyfran gyntaf o drethi yn cael eu datganoli i Gymru yn 2018